# Beth mae Cyflogwyr yn chwilio amdano?

Gyda chynifer o raddedigion yn ymgeisio am bob swydd, mae cryn bwysau arnoch chi i ddangos bod gennych chi'r sgiliau cyflogadwyedd mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt! Mae cyflogwyr yn edrych am ymgeiswyr sy'n gallu dangos amrywiaeth eang o sgiliau trosglwyddadwy, ac mae disgwyl bod gan fyfyrwyr y canlynol:

- Gradd dda
- Cyfrannu'n llawn i fywyd y Brifysgol
- Profiad gwaith
- Wedi ystyried a mynegi eu cyflawniadau

Bydd gan bob rôl y byddwch yn ymgeisio amdani, boed yn gyfle profiad gwaith neu'n swydd lefel gradd, ei gofynion gwybodaeth a sgiliau ei hun. Ond pa bynnag sector neu lwybr gyrfa fyddwch chi'n ei ddewis, bydd bron pob cyflogwr yn chwilio am sgiliau a galluoedd craidd. Yn gyffredinol, bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr yn chwilio am sgiliau fel:

Cyfathrebu
Gwaith tîm
Arweinyddiaeth
Trafod
Menter
Rheoli amser
Trefnu
Datrys problemau
Sgiliau cwsmer
Ymwybyddiaeth fasnachol

Fel rhan o'ch cwrs academaidd, ac i gyd-fynd â'ch gwybodaeth pwnc-benodol (a sgiliau technegol), cewch gyfle i ddatblygu a dangos y sgiliau byd gwaith hyn:

Datrys problemau'n greadigol
Ymchwil a dadansoddi
Hyblygrwydd a gwydnwch
Cymhwyso gwybodaeth i greu datrysiadau yn y byd go iawn
Trefnu eich hun
Cyfathrebu da
llythrennedd digidol
Sgiliau rhyngbersonol a gallu gweithio ochr yn ochr â phobl eraill

Bydd yr uchod, ynghyd â chymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau allgyrsiol sydd ar gael ar y campws, gan gynnwys chwaraeon, cymdeithasau, cynrychioli myfyrwyr ac ati, yn eich galluogi i fuddsoddi mwy yn eich datblygiad proffesiynol.

Ychwanegwch brofiad a sgiliau a geir drwy wirfoddoli cymunedol, gwaith rhan amser, lleoliad gwaith dros yr haf a/neu flwyddyn gyfan o brofiad gwaith, a bydd gennych gyfoeth o dystiolaeth o'r 'hyn sydd ei angen ar gyflogwyr' ar flaen eich bysedd.

I'ch helpu i nodi eich datblygiad rydym wedi llunio pecyn cymorth datblygu sgiliau, un i bob blwyddyn astudio, sy'n eich galluogi i adfyfyrio, trefnu a chofnodi eich holl ddysgu ar sail sgiliau. Fe'ch anogir i ddatblygu astudiaethau achos enghreifftiol fel tystiolaeth o'r sgiliau rydych chi'n eu datblygu. Gall y rhain helpu i gryfhau eich CV, gan weithio hefyd drwy lwybr dysgu ar-lein CV gyrfaoeddABER. Wrth ddilyn y rhain gallwch fireinio eich ceisiadau profiad gwaith a swyddi lefel gradd gyda chronfa o enghreifftiau o'ch sgiliau, yn barod i chi eu defnyddio i gyfoethogi unrhyw gais neu gyfweliad.

Fel myfyriwr Prifysgol Aberystwyth byddwch yn cael cymorth tiwtor personol hefyd i ddatblygu eich sgiliau, gyda chyfle i drafod eich twf mewn tiwtorialau drwy gydol y flwyddyn. Yn wir, mae'r modd mae modiwlau academaidd yn cael eu cyflwyno/asesu wedi'i gynllunio i annog eich adnabyddiaeth a mynegiant o drosglwyddedd sgiliau er mwyn i chi allu cysylltu hyn yn rhwydd ag anghenion cyflogwyr a gofynion y byd gwaith.

Ym mhob adran mae Ymgynghorwyr Gyrfaoedd yn trefnu gweithdai, gwaith tu hwnt i'r adran ac apwyntiadau un i un i'ch cynorthwyo gyda rheoli eich gyrfa a datblygu eich sgiliau proffesiynol. Os ydych chi'n fyfyriwr sy'n gwirfoddoli, mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig cyfle i osod nodau ac adeiladu sgiliau drwy wobr gwirfoddoli'r Undeb.

Felly beth am fwrw iddi i ddatblygu a thargedu'r sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt heddiw. Gallwch ddechrau drwy fapio eich sgiliau gydag adnoddau GraddedigionAber, cymryd modiwl llwybr llunio CV gyrfaoeddABER, meddwl am gynnydd eich sgiliau'n barod i'w trafod gyda'ch tiwtor personol, cysylltu ag Ymgynghorydd Gyrfaoedd eich adran a chael achrediad a chydnabyddaieth o'r sgiliau helaethach rydych wedi eu datblygu drwy wobr gwirfoddoli Undeb y Myfyrwyr.